



Cadeiryddion: Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Pwyllgor Cyllid

16 Gorffennaf 2014

Annwyl Cadeirydd

Yn y cyfarfod yr wythnos hon, cadarnhaodd y Pwyllgor Busnes yr amserlen ar gyfer cyllideb 2015-16 a chadarnhaodd mai 11 Tachwedd 2014 fydd y dyddiad i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft.

Fel y gwyddoch efallai, ystyriodd y Pwyllgor Busnes y broses ar gyfer craffu ar y gyllideb yn ddiweddar ac, fel rhan o'r trafodaethau hynny, cytunodd y Rheolwyr Busnes yn eu cyfarfod ar 3 Mehefin y gallai pwyllgorau gwrdd y tu allan i'r amserlen arferol yn ystod y cyfnod o graffu ar y gyllideb eleni.

Felly, ni fydd angen cymeradwyaeth benodol y Pwyllgor Busnes ar gyfer cyfarfodydd ychwanegol a drefnir at ddibenion craffu ar y gyllideb rhwng 30 Medi ac 11 Tachwedd 2014, ond hoffwn eich atgoffa i fod yn ystyriol o fusnes arall wrth amserlennu unrhyw gyfarfodydd ychwanegol, ac osgoi cwrdd yn ystod y Cyfarfod Llawn.

Yn gywir

Rosemary Butler AC, Llywydd
Cadeirydd, Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh